# BWRDD GWEITHREDOL

Dydd Llun, 30 Tachwedd 2020

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E. Dole (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
C.A. Campbell, G. Davies, H.A.L. Evans, L.D. Evans, P.M. Hughes, P. Hughes-Griffiths, D.M. Jenkins, L.M. Stephens a/ac J. Tremlett

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorwr D.M. Cundy

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
W. Walters, Prif Weithredwr
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant
R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd
J. Jones, Rheolwr Eiddo a Phrosiectau Mawr
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
I.R. Llewelyn, Rheolwr Blaen-gynllunio
L Morris, Uwch Swyddog Y Wasg
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
R. Lloyd, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
J. Corner, Swyddog Technegol
L. Jenkins, Swyddog Cefnogi Bwrdd Gweithredol
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Rhith-Gyfarfod - 10.00 yb - 11.30 yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

| Cynghorydd/Swyddog | Rhif(au) y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| Cynghorydd Emlyn Dole | 13 - Cronfa Arloesi Arfor | Mae'r Cynghorydd A. Vaughan Owen (ymgeisydd) yn aelod o'r un blaid wleidyddol. |
| Cynghorydd Glynog Davies | 15 - Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio 2018-2021 | Mae'n Gyfarwyddwr cwmni sydd wedi'i leoli yn nhref Llanelli. |

| | | |
|---|---|---|
| Jake Morgan | 9 - Amrywio Cytundeb Cyfreithiol y Consortia Rhanbarthol (ERW) | Mae ei wraig yn gweithio i ERW. |

## 3. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALWYD AR Y 16EG TACHWEDD, 2020

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd, 2020 yn gofnod cywir.**

## 4. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN YR AELODAU

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

## 5. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 6. RHAGOLWG CYLLIDEB REFENIW 2021/22 i 2023/24

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad ar ragolygon y gyllideb refeniw a oedd yn nodi'r rhagolygon ariannol presennol a'r model ariannol diweddaraf ar gyfer y tair blynedd ariannol nesaf. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r cynigion o ran paratoi'r gyllideb am y tair blynedd nesaf.

Er bod yr Awdurdod wedi derbyn cynnydd o £14m yn ei setliad gan Lywodraeth Cymru, nodwyd bod angen cynnydd o 4.89% yn y dreth gyngor a gostyngiadau yn y gyllideb o £5.1m i fantoli'r gyllideb.

Dywedwyd wrth y Bwrdd Gweithredol na fyddai Llywodraeth Cymru yn cadarnhau data'r setliad dros dro tan 22 Rhagfyr. Byddai ymgynghoriadau'n dechrau ym mis Ionawr, fodd bynnag, oherwydd y setliad hwyr byddai amserlen y gyllideb yn cael ei chywasgu hyd yn oed yn fwy nag arfer.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**6.1 Derbyn rhagolygon cychwynnol y gyllideb ac ystyried lefel y cynnydd yn y Dreth Gyngor a lefel arbedion effeithlonrwydd ysgolion y mae'n ystyried yn briodol ar gyfer datblygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig;**
**6.2 Cymeradwyo'r dull arfaethedig o glustnodi'r arbedion angenrheidiol;**
**6.3 cymeradwyo'r dull arfaethedig o ymgynghori ynghylch y gyllideb.**

## 7. LLYTHYR BLYNYDDOL YR OMBWDSMON 2019/20

Bu'r Bwrdd yn ystyried Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2019/20. Roedd taflen ffeithiau a data ynghlwm wrth y llythyr, sy'n cynorthwyo'r Awdurdod i adolygu perfformiad.

Nodwyd y bu gostyngiad o 2.4% yn nifer y cwynion a gafwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynghylch awdurdodau lleol yn genedlaethol a bod nifer y cwynion a gafwyd gan yr Ombwdsmon ynghylch Sir Gaerfyrddin wedi

gostwng yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o 49 i 42. Nodwyd bod y rhan fwyaf yn ymwneud â'r cyfnod cyn i Covid gynyddu.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2019-20.**

## 8. ADRODDIAD CHWARTEROL YNGYLCH RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDD DARBODAETH EBRILL 1AF 2020 I MEDI 30AIN 2020

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad diweddaru ar weithgareddau rheoli'r trysorlys a'r dangosyddion darbodus ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 30 Medi 2020.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR ei fod yn mabwysiadu Adroddiad Canol Blwyddyn ynghylch y Dangosyddion Darbodaeth a Rheoli'r Trysorlys o 1 Ebrill 2020 i 30 Medi 2020.**

## 9. AMRYWIO CYTUNDEB CYFREITHIOL Y CONSORTIA RHANBARTHOL (ERW)

**[SYLWER:** Roedd Jake Morgan wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach a gadawodd y cyfarfod]

Bu'r Bwrdd yn ystyried adroddiad a oedd yn manylu ar Amrywio'r Cytundeb Cyfreithiol er mwyn gallu darparu gwasanaethau dros dro i ysgolion Castell-nedd Port Talbot, galluogi'r Awdurdodau oedd yn weddill i dynnu'n ôl a diddymu ERW.

Nodwyd bod Castell-nedd Port Talbot wedi gadael ERW ar 31 Mawrth, 2020; Roedd Cyngor Ceredigion ac Abertawe hefyd wedi rhoi rhybudd eu bod yn gadael. Nid oedd Powys na Chyngor Sir Penfro wedi rhoi rhybudd eto. Roedd Cyngor Sir Caerfyrddin i fod i adael ERW ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Y cynnig presennol oedd y dylid diddymu ERW ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2020/21 ond gallai'r llinell amser hon newid yn dibynnu ar y cytundebau a fyddai'n dod i law. Y dyddiad gweithredu amgen a awgrymwyd oedd 31 Awst 2021.

Roedd y Bwrdd yn cydnabod bod model presennol ERW yn ddiffygiol a gofynnodd i'r broses o newid i'r model newydd gael ei chynnal cyn gynted â phosibl a hefyd adlewyrchu gweledigaeth dysgu ddwyieithog Sir Gaerfyrddin.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**9.1 cytuno ar y newidiadau i Gytundeb Cyfreithiol ERW er mwyn hwyluso'r gwaith o ddarparu gwasanaethau y cytunwyd arnynt i ysgolion Castell-nedd Port Talbot yn ystod 2020/21 fel y nodir yn yr adroddiad.**

**9.2 cytuno bod newidiadau'n cael eu gwneud i'r Cytundeb Cyfreithiol fel y nodir yn yr adroddiad.**

**9.3 dirprwyo awdurdod i'r Prif Swyddog Cyfreithiol a'r Cyfarwyddwr Addysg i wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r Cytundeb Cyfreithiol (mewn ymgynghoriad â phartneriaid eraill ERW) ac i ymrwymo i unrhyw ddogfennau sy'n angenrheidiol i weithredu unrhyw un o'r argymhellion yn yr adroddiad ac i ddiogelu buddiannau'r Cyngor.**

**10. GORCHYMYN DATBLYGU LLEOL - DWYRAIN CROSS HANDS**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad ynghylch y posibilrwydd o gyflwyno Gorchymyn Datblygu Lleol yn Nwyrain Cross Hands.

Roedd yr adroddiad yn nodi bod Safle Cyflogaeth Strategol Dwyrain Cross Hands yn lleoliad cyflogaeth rhanbarthol o bwys yn Sir Gaerfyrddin ac yn rhan bwysig o Barth Twf Cross Hands. Gan ddarparu 19 erw o dir y gellir ei ddatblygu, byddai datblygiad ar y raddfa hon yn creu tua 1,000 o swyddi newydd. Mae'r galw am leoliadau diwydiannol a busnes yn Cross Hands a'r Sir yn uchel gyda chyfraddau defnydd ym mhortffolio diwydiannol y Cyngor yn gyson dros 90%.

Nodwyd bod Gorchymyn Datblygu Lleol yn rhoi cyfle i Awdurdod Cynllunio Lleol symleiddio'r broses gynllunio drwy ddileu'r angen i ddatblygwyr/ymgeiswyr gyflwyno cais cynllunio i'r Awdurdod ac i gyflwyno cynigion datblygu fel cais am Orchymyn Datblygu Lleol, gan ganiatáu i awdurdod weithredu'n rhagweithiol mewn ymateb i amgylchiadau lleol penodol yn ei ardal ddaearyddol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL bod y Gorchymyn Datblygu Lleol arfaethedig yn cael ei ystyried drwy'r broses adrodd ddemocrataidd.**

**11. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL, 1972.**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau eraill o ran materion brys.

**12. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

**13. CRONFA ARLOESI ARFOR**

**[SYLWER:** Noder: gadawodd yr Arweinydd y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon a daeth y Dirprwy Arweinydd i'r Gadair. Ystyriwyd yr eitem fel yr eitem olaf ar yr agenda]

**Yn sgil cynnal prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 12 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Yr oedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am faterion a dyheadau busnes ac ariannol yr ymgeiswyr. Yn yr achos hwn, yr oedd y budd i'r**

**cyhoedd o ran cynnal yr eithriad uchod o dan Ddeddf 1972 mewn perthynas â'r adroddiad hwn yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o roi'r person a'r busnes a enwir yn yr adroddiad dan anfantais annheg mewn perthynas â'u cystadleuwyr masnachol.**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried cais am gymorth gan Gronfa Arloesi Arfor. Blaenoriaeth y gronfa oedd cefnogi twf busnes mewn ardaloedd â chyfran uchel o siaradwyr Cymraeg a chreu mwy o swyddi â chyflog gwell i gadw pobl leol yn yr ardaloedd hynny.

Roedd y cais, a fyddai fel arfer yn cael ei benderfynu fel rhan o gyfarfod Penderfyniadau Aelodau'r Bwrdd Gweithredol ar gyfer yr Arweinydd, wedi'i gyfeirio at y Bwrdd Gweithredol gan fod y cais wedi'i gyflwyno gan gwmni a oedd yn eiddo i'r Cynghorydd Aled Vaughan Owen a oedd hefyd yn aelod o grŵp Plaid Cymru. Roedd y Cynghorydd Dole wedi cyfeirio'r cais at y Bwrdd Gweithredol i benderfynu arno er nad oedd ganddo ddiddordeb penodol yn y mater.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL i gymeradwyo'r ceisiadau canlynol am gymorth o Gronfa Arloesi Arfor gan Ynni Da am gyfanswm o £1,535.04, yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad.**

**14. MENTRAU ADFYWIO CROSS HANDS**

**Yn sgil cynnal prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 12 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Roedd y prawf budd cyhoeddus mewn perthynas â'r adroddiad hwn yn drech na budd y cyhoedd gan y byddai datgelu cynnwys yr adroddiad yn gwanhau sefyllfa'r awdurdod mewn unrhyw ymarfer tendro dilynol ac o bosibl yn arwain at fwy o gost i gyllid cyhoeddus nag a fyddai fel arall.**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y mentrau adfywio parhaus yn Cross Hands gan gynnwys cymeradwyo'r estyniad i'r cytundeb Cyd-fenter presennol (rhwng Cyngor Sir Caerfyrddin a Llywodraeth Cymru) hyd at 31 Mawrth 2024. Hefyd, cymeradwyo'r gwaith o ddatblygu a darparu datblygiad cyflogaeth defnydd cymysg hunan-adeiladol ar Lain 3 Safle Cyflogaeth Dwyrain Cross Hands.

Er cywirdeb, nodwyd, yn adran ymgynghori'r adroddiad, y dylid nodi yr ymgynghorwyd â'r Cynghorydd A. Vaughan-Owen ac nid y Cynghorydd A. Scourfield.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**14.1 Ymestyn cytundeb presennol Cyd-fenter Cross Hands hyd at 31 Mawrth 2024 (2 flynedd o fis Mawrth 2022).**

**14.2 Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Pennaeth Adfywio, mewn ymgynghoriad â'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol i ddatblygu'r gwaith o gyflawni prosiect Llain 3 drwy bob cam datblygu/gweithredu hyd at ei gwblhau fel y nodwyd yn yr adroddiad. Gan gynnwys awdurdod i fwrw ymlaen â'r prosiect heb neu gyda chyfraniad y Ganolfan Adeiladu Gweithredol, yn amodol ar drafodaethau cyfreithiol parhaus gyda'r Ganolfan Adeiladu Gweithredol a'u cynrychiolwyr cyfreithiol.**

**14.30 Bod y Pennaeth Adfywio, drwy ymgynghori â Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, yn cael awdurdod dirprwyedig i werthu lleiniau o fewn Cyd-fenter Cross Hands yn unol â'r strategaeth werthu ac mewn cytundeb â Llywodraeth Cymru fel partner y gyd-fenter.**

## 15. RHAGLEN TARGEDU BUDDSODDIAD MEWN ADFYWIO 2018-2021

**[Sylwer:** Ar ôl datgan diddordeb yn yr eitem hon yn gynharach, gadawodd y Cynghorydd Glynog Davies y cyfarfod yn ystod trafodaethau ynghylch canol tref Llanelli / Adeiladau'r Goron]

**Yn sgil cynnal prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 12 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad yn nodi'r sefyllfa bresennol a'r cynnydd o ran y Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**15.1 cefnogi'r cynigion ar gyfer prosiectau blwyddyn 4 o ran darparu'n rhanbarthol y Rhaglen Targedu Buddsoddiad Adfywio (2021-2022).**

**15.2 Cymeradwyo bod tîm y prosiect yn datblygu'r ceisiadau gydag ymgeiswyr trydydd parti ar brosiectau Adeiladau'r Goron a'r Linc.**

_________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**